

PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG

DYDD MERCHER, 9 RHAGFYR 2020

Yn Aelodau Annibynnol: James Downe(Cadeirydd)
bressenol: Jason Bartlett, Chrissie Nicholls a Arthur Hallett
Cynghorwyr Cunnah, Sandrey, a/ac Williams

Cynghorydd Cymuned Stuart Thomas

74 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Hollie Edwards-Davies.

Dyweddodd y Cynghorydd Joel Williams y byddai'n hwyr yn ymuno â'r cyfarfod.

75 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

76 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30ain Medi 2020 fel cofnod cywir.

77 : COFRESTR RHODDION A LLETYGARWCH AELODAU

Rhoddwyd trosolwg o'r adroddiad i'r aelodau. Roedd hwn yn adroddiad rheolaidd i'r Pwyllgor a oedd yn manylu ar unrhyw hawliadau lletygarwch dros £25 a oedd wedi'u cofnodi. Roedd yr adroddiad hwn yn wahanol gan fod y Lletygarwch Dinesig wedi'i wahanu, yn ôl cais blaenorol y Pwyllgor.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor o'r farn bod rhannu Lletygarwch Dinesig yn ddefnyddiol a diolchwyd i Swyddogion am y newid hwn.

Trafododd yr Aelodau'r trothwy o £25 ac a oedd hyn wedi'i adolygu yn unol â chwyddiant. Eglurodd swyddogion mai terfyn Cenedlaethol ydoedd, ond gallai Cyngor Caerdydd newid hwn os oeddent yn dymuno ei wneud; nid yw'r trothwy wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan ei fod wedi'i ystyried yn swm teg.

CYTUNWYD: i nodi'r wybodaeth a ddarparwyd yn **Atodiad A** ac **Atodiad B** i'r adroddiad, ar gofrestru lletygarwch, rhoddion a buddion eraill a dderbyniwyd gan Aelodau yn ystod y cyfnod o 1^{af} Tachwedd 2019 i 31^{ain} Hydref 2020.

78 : CANLLAWIAU RHODDION A LLETYGARWCH SWYDDOGION

Dyweddwyd wrth Aelodau'r Pwyllgor fod y Canllawiau hyn wedi'u diwygio yn dilyn Adolygiad Archwilio Mewnol, i gynnwys rhoddion a lletygarwch a gynnigir gan Swyddogion yn ogystal â'u derbyn. Dywedodd swyddogion nad yw hyn yn digwydd yn aml, y trothwy fyddai £25 y person neu £500 y digwyddiad. Nodwyd y byddai gan y Cyfarwyddwr neu'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol yr awdurdod i'w llofnodi. Gall y Cyfarwyddwr hefyd roi awdurdod cyffredinol i Swyddogion penodol am £750 y

digwyddiad, gyda therfyn o £1500 y chwarter. Byddai'r holl dderbyniadau'n cael eu cadw i'w harchwilio a byddent yn cael eu cyhoeddi ac ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd. Awgrymwyd hefyd y dylid cynnwys lle mae Swyddogion yn gwrthod rhoddion a lletygarwch dros £25.

Trafododd Aelodau'r Pwyllgor y gofyniad i Swyddogion gofrestru cynigion o roddion a lletygarwch a gwrthod rhoddion a lletygarwch ac roeddent o'r farn y byddai hyn yn lefel uwch o safon nag sydd gan Aelodau Seneddol San Steffan ac Aelodau Senedd Cymru. Esboniodd swyddogion fod gan y cod ymddygiad presennol Cyngor Caerdydd safonau uwch hefyd nag Aelodau Seneddol San Steffan ac Aelodau Senedd Cymru. Nododd y swyddog hefyd nad yw'n digwydd yn aml iawn, weithiau gall gweithwyr gofal gael pethau wedi'u gadael iddynt mewn ewyllysiau ac ati, felly mae hyn wedi'i awgrymu er mwyn diogelu Swyddogion a galluogi'r Cyngor i nodi unrhyw batrymau posibl. Roedd Aelod o'r Pwyllgor o'r farn ei fod yn broses anhylaw ar gyfer rhywbeth sy'n digwydd mor anaml. Derbyniodd swyddogion y farn honno ac esboniodd pe bai'r Pwyllgor yn penderfynu cytuno ar y canllawiau, yna byddai swyddogion yn gwneud y penderfyniad hwnnw i Archwilio, er bod Archwilio yn awyddus i'r broses fod ar waith.

Nododd yr Aelodau y gallai Uwch Swyddogion gael mynediad at fwy o lletygarwch rhodd nag Aelodau felly dylai'r polisi fod yr un fath ag aelodau o leiaf. Ychwanegodd yr Aelodau fod llawer o benderfyniadau wedi'u gwneud gan Swyddogion yn ystod Covid; roeddent yn croesawu'r gwaith craffu ac yn nodi bod gan Awdurdodau Lleol eraill y broses hon ar waith.

Ystyriwyd yn gyffredinol y byddai'r tryloywder a'r uniondeb ychwanegol yn dangos i bobl fod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn y ffordd gywir.

PENDERFYNWYD:

1. Ystyried a chymeradwyo Canllawiau drafft diwygiedig y Swyddogion ar Lletygarwch, Rhoddion a Buddion Eraill sydd ynghlwm fel **Atodiad A**, a'r ffurflenni cofrestru cysylltiedig, **Atodiadau B ac C**, Awdurdodi'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, i gwblhau a chyhoeddi'r Canllawiau a'r ffurflenni cofrestru diwygiedig (**Atodiadau A, B ac C**).

79 : ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019/20

Dywedodd swyddogion wrth Aelodau'r Pwyllgor mai adroddiad byr gyda Phenawdau Pwnc oedd hwn a fyddai'n cael sylw yn yr Adroddiad Blynyddol. Byddai'r adroddiad yn cael ei gytuno gyda'r Cadeirydd a'i adrodd i'r Cyngor lle byddai pob Aelod yn cael cyfle i ofyn cwestiynau.

Ystyriwyd ei bod yn bwysig cynnwys diolch i Richard Tebboth a Hugh Thomas fel Cadeirydd ac Aelod o'r Pwyllgor, sy'n gadael.

Gofynnodd yr Aelodau pam yr oedd yr adroddiad yn cael ei gynhyrchu mor hwyr ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol a dywedodd Swyddogion ei fod fel arfer yn cael ei gynhyrchu'n gynharach, ond ei fod wedi'i ohirio oherwydd y pandemig, ac nad oedd y Pwyllgor wedi cyfarfod am gyfnod gyda'u cyfarfodydd yn cael eu haildrefnu. Rheswm arall oedd amser yng nghyfarfodydd y Cyngor, gan fod adroddiadau blynyddol yn

gyffredinol yn cymryd cryn dipyn o amser yng nghyfarfod y Cyngor. Nododd swyddogion hefyd y bu oedi wrth gynhyrchu adroddiad y llynedd ond roedd hyn oherwydd lleoedd gwag ar y Pwyllgor.

Gofynnodd yr Aelodau pa gyfnod o amser yr oedd yr adroddiad yn ymdrin ag ef, a dywedodd swyddogion mai Ebrill – Mawrth ydoedd fel arfer ond weithiau mae'n cyfeirio at y Flwyddyn Ddinesig.

PENDERFYNWYD:

- 1) Rhoddwyd sylwadau ar gynnwys Adroddiad Blynyddol 2019/20 y Pwyllgor;
- 2) Rhoddwyd awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor i ddrafftio a chwblhau'r Adroddiad Blynyddol, gan ystyried y sylwadau a gafwyd gan Aelodau'r Pwyllgor; a

Bod y Cadeirydd yn cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor ym mis Ionawr 2021.

80 : BRÏFF AELODAU

Dyweddodd swyddogion wrth Aelodau'r Pwyllgor fod y papur briffio hwn yn fersiwn llai ffurfiol, llai manwl o'r Adroddiad Blynyddol, sy'n mynd at bob Aelod. Amlinellwyd y penawdau a argymhellwyd i Aelodau'r Pwyllgor, a gofynnwyd iddynt am unrhyw sylwadau, newidiadau neu ychwanegiadau, cyn i'r adroddiad gael ei gwblhau gyda'r Cadeirydd a'i anfon at bob Aelod a Chyngor Cymunedol.

Roedd yr Aelodau o'r farn y dylai Aelodau benywaidd sy'n profi ymddygiad amhriodol fod yn rhan o'r Cwynion am Ymddygiad. Cytunodd y Cadeirydd a dywedodd y dylid rhoi hyn yn y Cylchlythyr, gan bwysleisio nad yw'n dderbyniol.

Cyfeiriodd yr Aelodau at Addewid Caerdydd a meddwl tybed a ellid cynnwys hyn yn y briff ar gyfer Aelodau nad oeddent wedi'i lofnodi. Dywedodd swyddogion fod pob Aelod, yn ymarferol, yn ei lofnodi, bod y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol yn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud, ac yn mynychu hyfforddiant y Cod Ymddygiad ac yn mynd ar drywydd hyn.

Trafododd yr Aelodau amseriad anfon y briff/cylchlythyr ar yr un pryd â'r Adroddiad Blynyddol. Cytunwyd ei fod yn iawn ar gyfer eleni ond y dylid ei gyflwyno cam wrth gam wrth symud ymlaen.

Roedd y Cadeirydd am gynnwys nodyn atgoffa bod yn rhaid iddynt fod yn barod i fod yn bresennol mewn gwrandawriad pe bai Aelodau'n cyflwyno cwyn.

PENDERFYNWYD:

- 1) Rhoi sylwadau ar gynnwys y Papur Briffio i Aelodau, fel y nodir yn yr adroddiad;
- 2) Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, i gwblhau'r Briffio, gan ystyried y sylwadau a gafwyd gan Aelodau'r Pwyllgor; a

Chyfarwyddo'r Swyddog Monitro i gyhoeddi'r Papur Briffio Aelodau terfynol i holl Aelodau Cyngor Caerdydd a chwe Chyngor Cymunedol Caerdydd.

81 : DIWEDDARIAD CWYNION COD YMDDYGIAD – CHWARTER 2 2020/21

Dywedwyd wrth Aelodau'r Pwyllgor na fu unrhyw gwynion yn ystod chwarter 2, sef yn ystod y pandemig. Derbyniwyd sylwadau hefyd ynghylch gwell ymddygiad mewn cyfarfodydd o bell.

Roedd yr Aelodau o'r farn bod hyn yn newyddion da ond roedd yn bwysig peidio â bod yn hunanfodlon; roedd y Cyngor Llawn ym mis Hydref 2020 wedi bod yn dorcalonnus ac weithiau gall fod yn anodd cael dadleuon gwresog ac yna diffodd y gliniadur a dim cyfle i drafod gyda chydweithwyr, fel y byddai'n digwydd mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Roedd yr Aelodau hefyd o'r farn y gallai pethau fod yn digwydd ond nad ydynt yn cael eu hadrodd.

Pwysleisiodd swyddogion fod pwysigrwydd adrodd ac nad oes rhaid iddo ddigwydd yn syth ar ôl y digwyddiad.

PENDERFYNWYD: nodi cynnwys yr adroddiad.

82 : BLAENGYNLLUN GWAITH 2020/21

Amlinellwyd Blaengynllun Gwaith 2020/21 gan Swyddogion, gan nodi'r etholiadau lleol a bod gwaith eisoes wedi dechrau ar Sefydlu Aelodau newydd gan Wasanaethau Democrataidd.

PENDERFYNWYD: I gytuno ar y rhaglen waith.

83 : ARSYLWI CYFARFODYDD

Diolchodd y Cadeirydd i Arthur Hallett am fynychu ac arsylwi dau gyfarfod. Pwysleisiodd swyddogion ei bod yn ddefnyddiol cael sylwadau ac arsylwadau gan Aelodau Annibynnol, megis sylwadau ar y Cyngor Llawn ac adborth o ran TG a chyhoeddi agenda a chofnodion yng Nghyngor Cymunedol Radur a Phentre-poeth, a oedd wedi'u rhannu â'r Clerc. Roedd y ddau gyfarfod wedi bod yn gyfarfodydd gydag ymddygiad yn dda heb unrhyw broblemau i'r Pwyllgor Safonau a Moeseg.

Nodwyd y dylid cyhoeddi Agendâu a chofnodion ar gyfer Cynghorau Cymunedol. Dylid cyhoeddi cofnodion drafft cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod a'u gosod fel wedi cymeradwyo pan gânt eu cymeradwyo yn y cyfarfod canlynol.

Trafododd Aelodau'r Pwyllgor y ffaith bod presenoldeb ac arsylwadau yn y cyfarfod yn ad hoc ar hyn o bryd, gan fod popeth yn mynd yn dda; byddai unrhyw faterion y gwnaed swyddogion yn ymwybodol ohonynt yn cael eu hysbysu i Aelodau'r Pwyllgor. Gofynnodd swyddogion i Aelodau'r Pwyllgor a fyddai'n well ganddynt ddull mwy strwythuredig, a chroesawyd hyn ar ffurf Rota neu Dabl i'w rannu rhyngddynt. Ystyriwyd y byddai Cynghorau Cymunedol, y Cyngor Llawn, y Cabinet a Chynllunio yn gyfarfodydd defnyddiol i'w harsylwi.

PENDERFYNWYD:

(1) Nodi'r adborth arsylwi cyfarfodydd a'r ymatebion a gafwyd, fel y nodir yn **Atodiad A** i'r adroddiad;

Parhau i arsylwi cyfarfodydd priodol y Cyngor, Pwyllgorau a Chynghorau Cymunedol a rhoi adborth i'r Pwyllgor; gydag amserlen o gyfarfodydd i'w llunio a'i gylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor.

84 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim.

85 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF.

3 Mawrth 2021.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.00 pm